

Senedd 2026 - Blaenoriaethau maniffesto ar gyfer y sector cynhyrchu teledu



Croeso i'n Maniffesto ar gyfer etholiad y Senedd 2026.

Mae TAC yn cynrychioli'r sector cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru. Gyda gwerth o £460m, mae ein sector yn rhan sylweddol o ddiwydiannau creadigol Cymru, ac mae gan Gaerdydd ei hun y trydydd clwstwr ffilm a theledu mwyaf yn y Deyrnas Unedig. Mae tua 50 o gwmnïau yng Nghymru, yn amrywio o unig fasnachwyr i rai o'r prif gwmnïau yn y diwydiant cynhyrchu yn y DU, pob un ohonynt yn darparu manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae ein haelodau'n

cynhyrchu cynnwys ar gyfer y BBC (gan gynnwys radio), ITV, Channel 4, Channel 5 a Sky yn ogystal â darlledwyr a phlatfformau masnachol eraill. Mae ein sector yn gyfrifol am bron yr holl gynnwys sydd yn ymddangos ar S4C.

Mae'r diwydiant cynhyrchu teledu yn wynebu sawl her ar hyn o bryd. Mae chwyddiant a chostau cynhyrchu cynyddol wedi cwtogi cyllidebau cynhyrchu. Yn ogystal, mae darlledwyr a gwasanaethau ffrydio yn comisiynu llai o raglenni. Mae cynhyrchwyr annibynnol yn ymateb i'r her ac yn ceisio sicrhau eu bod yn troi at y manau hynny lle mae'r nifer fwyaf o gyfleoedd ar gael o fewn byd cyfryngol sy'n newid yn gyson. Yn y cyd-destun hwn mae'n bwysig bod Llywodraeth nesaf Cymru a'r Senedd nesaf yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi'r sector.

Mae'r chwe phwynt maniffesto canlynol felly yn bolisiau pwysig er mwyn sicrhau bod cynhyrchu teledu, a'r diwydiannau creadigol eraill yr ydym yn gweithio gyda nhw, yn gallu sefydlogi a thyfu, gan fod o fudd i ddiwylliant Cymru a'i heconomi ymhell i'r dyfodol. Rydym yn gobeithio y byddant yn cael eu mabwysiadu gan bob plaid cyn Etholiadau 2026.

Llyr Morus, Cadeirydd TAC

1. Rhaid cynnal ac ehangu'r cyllid ar gyfer Cymru Greadigol

Byddai cynyddu cyllideb Cymru Greadigol yn caniatáu mwy o gefnogaeth a datblygiad ar gyfer sector economaidd hanfodol yng Nghymru. Mae cynllun Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol yn cefnogi cwmnïau cynhyrchu, animeiddio a gemau yng Nghymru sydd â diddordeb mewn datblygu cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol. Mae hyn yn fwyfwy pwysig mewn marchnad deledu gynyddol fyd-eang. Mae Cymru Greadigol hefyd yn

cefnogi adeiladu stiwdios a chyfleusterau i ddenu buddsoddiad mewnol ac i'r sector yng Nghymru eu defnyddio. Mae'n bwysig bod cyfran sylweddol o gyllid Cymru Greadigol yn cael ei defnyddio ar gyfer buddsoddi yn sector cynhyrchu domestig Cymru, er mwyn sicrhau diwydiant cynaliadwy sy'n dod â buddion economaidd a buddion o ran sgiliau i'r economi.

Mae cyfrifoldeb ar Gymru Greadigol nawr i gynnal ymchwil sectoraidd bellach a chynyddu ei ymgysylltiad â rhanddeiliaid cysylltiedig. Ynghyd â'r gofynion cynyddol a fydd arno, heb amheuaeth, o ganlyniad i Senedd ehangach, mae'r cyfrifoldebau hyn yn golygu y bydd angen adnoddau ychwanegol ar Gymru Greadigol i gyflawni ei swyddogaethau, sydd eisoes yn bwysig yn ei ymrwymiad i amddiffyn a chryfhau'r sector creadigol.

Mae rhaglenni Cymru Greadigol ar ddatblygu sgiliau a chynhyrchu yn bwysig iawn i'r sector. Mae ei Gynllun Gweithredu Sgiliau yn amlygu hyfforddiant busnes ac arweinyddiaeth; cefnogi talent; recriwtio gan sicrhau amrywiaeth a chynhwysiant; lleoliadau a chyfleoedd lefel mynediad ac uwchsgilio; addysg a'r cwricwlwm; ymwybyddiaeth gyrfaoedd; arloesedd; pontio bylchau rhwng addysg bellach / uwch a'r diwydiant; llesiant y gweithlu a chefnogi gweithwyr llawrydd. Ynghyd â rhaglen hyfforddi TAC ei hun mewn partneriaeth ag S4C, mae'r gweithgaredd hwn yn allweddol i gynnal y llwybr talent yng Nghymru.

2. Creu Gweinidog Llywodraeth pwrpasol dros y diwydiannau creadigol, y cyfryngau a chyfathrebu

Bydd y Senedd estynedig yn arwain at fwy o graffu ar feysydd polisi'r Llywodraeth, sy'n gofyn am set ehangach o rolau gweinidogol. Dylai un o'r rhain ganiatáu i'r Llywodraeth ganolbwyntio mwy ar gefnogi diwydiannau creadigol Cymru.

Byddai Gweinidog pwrpasol dros y diwydiannau creadigol, y cyfryngau a chyfathrebu yn gallu arwain ar faterion fel cynyddu enw da Cymru fel canolfan a lleoliad ar gyfer creu ffilmiau. Mae Cymru Greadigol eisoes yn hyrwyddo hyn ac mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod popeth posibl yn cael ei wneud i hyrwyddo ac arddangos sectorau creadigol Cymru. Gallent hefyd gael mwy o rôl wrth ddwyn darlledwyr a rheoleiddwyr y DU i gyfrif i raddau mwy helaeth am eu perfformiad a'u dibenion cyhoeddus yng Nghymru.

Gallai'r rôl Weinidogol hon hefyd helpu i ddiogelu buddiannau gweithwyr llawrydd creadigol Cymru mewn meysydd lle mae materion wedi cael eu datganoli, er enghraifft sgiliau, a hyrwyddo ein gweithlu gyda Hyrwyddwr Gweithwyr Llawrydd Llywodraeth y DU.

Yn olaf, bydd rôl o'r fath hefyd yn caniatáu mwy o fewnbwn a chraffu gan y Senedd a Llywodraeth Cymru i'r gwaith sydd ar ddod ynghylch dyfodol Ffi'r Drwydded Deledu, sydd ar hyn o bryd yn darparu holl gyllid cyhoeddus S4C yn ogystal â chefnogi BBC Cymru a'r BBC yn fwy cyffredinol, sy'n buddsoddi'n sylweddol mewn cynyrchiadau yng Nghymru a phortreadu diwylliant a chymunedau Cymru. Er mwyn i S4C barhau i gefnogi Cymraeg 2050 (gweler ein pwynt maniffesto ar wahân ar hyn) mae angen iddi barhau i gael ei hariannu'n dda a chael sefydlogrwydd yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y sector yng Nghymru yn gallu tyfu a pharhau i fod yn glwstwr creadigol o bwys yn y DU.

3. Mwy o gefnogaeth i weithwyr llawrydd yng Nghymru

Mae gwaith teledu/ffilm gweithwyr llawrydd yn dod yn fwyfwy ansicr, heb unrhyw sicrwydd o incwm rheolaidd a hefyd costau sylweddol sy'n gysylltiedig â chadw sgiliau yn gyfredol, ynghyd â chostau eraill bod yn hunangyflogedig. Mae cynnal sylfaen sgiliau gweithwyr llawrydd yn hanfodol os ydym am lywio trwy'r cyfnod anodd presennol er mwyn manteisio ar y galw a'r cyfleoedd cynyddol yn y dyfodol.

Mae Cynllun Sector Diwydiannau Creadigol Llywodraeth y DU yn cynnwys ymrwymiad i gael Hyrwyddwr Gweithwyr Llawrydd er mwyn sicrhau bod anghenion gweithwyr llawrydd creadigol yn cael eu cydnabod mewn polisïau, a hoffem weld ystyriaeth ynghylch a yw hynny hefyd yn swyddogaeth a allai weithredu o fewn Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd yn cefnogi incwm sylfaenol i weithwyr llawrydd. Mae'r cynllun Incwm Sylfaenol ar gyfer y Celfyddydau yng Ngweriniaeth Iwerddon wedi cynorthwyo gweithwyr creadigol i aros yn y swyddi hynny a chynnal eu hunain, a thrwy hynny barhau i fod ar gael i'r diwydiannau maen nhw'n gweithio ynddynt. Rydym am weld ymrwymiad i gyflwyno cynllun tebyg yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod sylfaen ein gweithwyr llawrydd yn cael ei chynnal a'i bod ar gael i fodloni'r twf mewn cynhyrchu wrth i sefydlogrwydd ddychwelyd.

4. Cyllid wedi'i dargedu i gefnogi gweithgareddau creadigol ledled Cymru

Er bod Caerdydd yn haeddu bod yn falch iawn o'r ffaith mai yno y mae'r trydydd sector cynhyrchu mwyaf yn y DU, mae gan y sector y gallu i dyfu ymhellach ledled y wlad a bod yn fwy cynrychioladol, gan sicrhau bod strategaethau cenhedloedd a rhanbarthau darlledwyr yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.

Bydd cyllid wedi'i dargedu ledled Cymru yn caniatáu i ystod ehangach o gymunedau gael eu cefnogi i gynnal a thyfu canolfannau cynhyrchu, er mwyn caniatáu cynyddu gweithgarwch creadigol y tu allan i Gaerdydd.

Er enghraifft, cyfrannodd prosiect ARFOR at sefydlu Stiwdios ARIA ar Ynys Môn ac yn gyffredinol mae wedi caniatáu i bobl creadigol ym maes ffilm a theledu aros yn eu cymunedau a chreu cynnwys lleol sy'n adlewyrchu Cymru'n iawn ac yn helpu i atal talent rhag gadael. Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ystyried cynllun buddsoddi ar gyfer canolfannau creadigol mewn mwy o ardaloedd er mwyn darparu'r cynnwys gorau, sy'n ddilys ac yn amrywiol i gynulleidfaoedd.

5. Cadw'r targed o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg yn 2050

Mae parhad Cymraeg 2050 y tu hwnt i etholiadau 2026 yn hanfodol er mwyn diogelu a thyfu iaith, diwylliant ac economi Cymru. Mae arwahanrwydd diwylliannol yn taro tant yn gynyddol ymhlith defnyddwyr y cyfryngau a thwristiaid fel ei gilydd. Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod polisi 2050 yn aros yn ei le.

Yn gysylltiedig â hyn, mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth S4C gyda Cymru Greadigol yn cynnwys amcan i gefnogi twf a dyfodol y Gymraeg, sydd angen ei gadw. Mae pwrpas cyhoeddus S4C i ddarparu rhaglenni Cymraeg o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru a bywyd yng Nghymru yn chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant y polisi hwn. Mae S4C yn hyrwyddo iaith a diwylliant Cymraeg wrth gyflwyno ystod o gynnwys, gan gynnwys newyddion, drama ac adloniant i Gymru gyfan.

6. Annog 'Sgiliau Gwyrdd' ac arferion cynaliadwy yn y sector creadigol

Mae'r amgylchedd yn fater datganoledig ac mae Cymru yn arwain y ffordd mewn rhai meysydd, er enghraifft cael ei henwi'n ail yn y byd ar gyfer ailgylchu, o flaen gweddill y DU. Mae TAC eisoes yn gweithio gydag S4C a BAFTA albert er mwyn sicrhau bod cynrychiadau teledu yn gweithio tuag at fwy o gynaliadwyedd ac mae rhai cwmnïau cynhyrchu yn cyflwyno ffyrdd arloesol o wneud cynrychiadau carbon isel neu garbon-niwtral.

Rydym yn galw am fwy o gefnogaeth ac arweinyddiaeth i'r diwydiannau creadigol yn hyn o beth gan Lywodraeth Cymru. Rhaid i'r Llywodraeth nesaf gynnal y blaenoriaethu a geir ar hyn o bryd i 'sgiliau gwyrdd', sy'n ymwneud â defnyddio arferion ymwybodol o'r amgylchedd mewn ystod eang o alwedigaethau a sicrhau bod y diwydiannau creadigol yn amlwg.

Gellir gweithredu hyn trwy roi mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd yng nghyllid datblygu a sgiliau Cymru Greadigol, drwy greu rôl Hwylusydd Cynaliadwyedd newydd i weithio gyda'r diwydiant yng Nghymru.

www.tac.cymru

*Am wybodaeth bellach neu i drafod y manifest o cysylltwch â:
Sioned Haf Roberts, Rheolydd Cyffredinol TAC sionedhaf.roberts@tac.cymru*